

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ysgol

**Canllawiau a Gweithdrefnau ar gyfer
Delio â Digwyddiadau Gwahaniaethol
mewn Ysgolion yng Ngwynedd**



A) Rhagymadrodd

Mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 Rheoliadau (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, gwrdd â'r dyletswyddau o dan y rheoliadau hynny trwy:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- hyrwyddo cyfle cyfartal;
- hyrwyddo cysylltiadau da.

O Ebrill 2012, mae'n ofynnol bod gan bob ysgol a gynhelir, Gynllun Cydraddoldeb Strategol mewn lle er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) yn gyfrifol am orfodi'r Ddeddf ac mae EHRC (Cymru), hefyd yn gyfrifol am fonitro cydymffurfio â dyletswyddau statudol Llywodraeth Cymru yng Nghymru, sy'n berthnasol i bob corff cyhoeddus, yn cynnwys Awdurdodau Lleol, ysgolion a chyrff llywodraethol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gwrdd â'i ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a rheoliadau Cymru. Mae polisi cyfredol yr Awdurdod ar gydraddoldeb corfforaethol yn nodi'r ymrwymiad hwn yn eglur:

Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod ac yn derbyn cyfrifoldeb corfforaethol i sicrhau a meithrin diwylliant o gydraddoldeb yn ei holl weithgareddau ac i ymgymryd â phwerau penodol ar gyfer cyflawni hyn.

Bydd y Cyngor yn cymryd camau positif i sicrhau nad yw'n gwahaniaethu ar sail tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, newid o ran rhyw, credoau crefyddol neu fod yn anffyddiwr, iaith, cenedl, cyfrifoldeb am unrhyw rai sy'n ddibynol neu unrhyw reswm arall na ellir dangos bod cyfiawnhad drosto.

Bydd y Cyngor yn ymrwymo i ddatblygu ymwybyddiaeth o anghenion grwpiau ac unigolion penodol ac yn ceisio sicrhau fod ei wasanaethau yn ymateb i'w gofynion.

Bydd y Cyngor yn gweithredu arferion recriwtio a chyflogaeth teg i'w holl weithwyr ac yn adnabod eu hanghenion datblygu a hyfforddi.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ac yn derbyn fod ganddo rôl arweiniol o fewn cymunedau a chyfrifoldeb i hyrwyddo cysylltiadau da ar sail cydraddoldeb rhwng y Cyngor a'i gymunedau a rhwng y gwahanol gymunedau a grwpiau â'i gilydd.

Mae'r cyngor a'r arweiniad a geir yn y ddogfen hon yn seiliedig ar arfer dda presennol a chafodd ei gynhyrchu gan Gyngor Gwynedd mewn ymgynghoriad ag ystod o sefydliadau sy'n bartneriaid o blith y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

B) Cyd-destun Lleol

Mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd adrodd ynghylch nifer o ddigwyddiadau bwlio a hefyd faint o'r digwyddiadau hynny oedd yn deillio o wahaniaethu o ryw fath. Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor gofnodi nifer y digwyddiadau a arweiniodd at gymryd camau pellach.

Gall gweithredoedd ac agweddau gwahaniaethol, yn arbennig ymhlith plant ifanc iawn, ddigwydd heb unrhyw fwriad na dealltwriaeth maleisus, ond ni wna hynny effaith y gweithredoedd hyn yn llai niweidiol neu'n dderbyniol. Bydd ar ysgolion angen delio'n sensitif â hyn ond yn sicr mae ganddynt ddyletswydd i blant i'w helpu i ddeall a derbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau eu gweithredoedd. Y swyddog sy'n gyfrifol am fonitro a chasglu

gwybodaeth ynghylch digwyddiadau bwlio gwahaniaethol yng Nghyngor Gwynedd yw Bethan Eleri Roberts (BethanEleriRoberts@gwynedd.gov.uk rhif ffôn 01286 679007) sydd wedi ei lleoli yn yr adran Addysg Gwasnaeth Disgyblion a Chynhwysiad.

Mae Cyrff Llywodraethol yn gyfrifol am sicrhau bod ysgolion yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldeb ac yn sicrhau y caiff Gynllun Cydraddoldeb Strategol Ysgol ei fabwysiadu a'i weithredu. Dylai hefyd bod cysylltiadau eglur rhyngddo â Pholisi Gwrth-Fwlio'r ysgol.

Mae Model o Gynllun Cydraddoldeb Strategol Ysgolion wedi ei atodi fel Atodiad 2.

Mae gan Cyngor Gwynedd staff dynodedig sy'n gweithio ar faterion Cydraddoldeb yn gorfforaethol sydd wedi eu lleoli ar hyn o bryd o fewn yr Adran Strategol a Gwella. Ruth Richards yw'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith RuthRichards@gwynedd.gov.uk a Gareth Roberts yw'r Swyddog Cydraddoldeb Anabled GarethRoberts3@gwynedd.gov.uk (gellir cysylltu â hwy hefyd, trwy e-bostio Cydraddoldebaciaith@gwynedd.gov.uk). Rob Jewell RobJewell@gwynedd.gov.uk yw'r Swyddog â chyfrifoldeb penodol dros faterion cydraddoldeb yn yr Adran Addysg.

Golyga hyn y gall Gyngor Gwynedd a'r sefydliadau sy'n bartneriaid:

- gydweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i godi ymwybyddiaeth o bolisi a gweithdrefnau o ran cydraddoldeb;
- weithio mewn partneriaeth â rhieni o bob grŵp er mwyn sicrhau bod ganddynt rôl weithredol yn nysgu a datblygiad eu plant;
- hybu ymglymiad gweithredol cymunedau lleiafrifol lleol ym mywyd yr ysgol a'r gymuned;
- cynnig hyfforddiant ar godi ymwybyddiaeth ar bob agwedd o gydraddoldeb ar gyfer staff sydd wedi eu lleoli yn yr ysgol a chyrrff llywodraethol;
- cefnogi ysgolion er mwyn sicrhau bod gan rieni a gofalwyr fynediad at eu cynllun cydraddoldeb strategol a'u polisi gwrth-fwlio.

C) Llais y Dysgwr

Mae deall y cysyniad sylfaenol o gydraddoldeb yn rhan hanfodol o addysgu plant i fyw mewn cymdeithas fodern eangfrydig. Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd bod yr holl asiantaethau sy'n ymwneud ag addysg plant a phobl ifanc yn dilyn dull integredig tuag at ymgynghori. Ceisir a chymerir i ystyriaeth farn plant a phobl ifanc pan wneir penderfyniadau ynghylch eu profiad addysgol ac mae Cyngorau Ysgol wseddi eu sefydlu ymhob Ysgol er mwyn sicrhau llais y plentyn mewn penderfyniadau sy'n ymwneud ag awyrgylch a addasrwydd eu sefydliadau addysgol.

CH) Monitro, Arfarnu ac Adolygu

Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol. Bydd yr Awdurdod yn monitro cynnydd yn yr ysgol a lleoliadau addysgol eraill:

- trwy fonitro Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Ysgolion;
- trwy ddadansoddi a defnydd effeithiol o ddata perthnasol;
- trwy adolygiad blynyddol a rhaglenni datblygu;
- trwy gynllunio blynyddol mewn ymweliadau partneriaeth a gynhelir rhwng ysgolion, staff yr Adran Addysg ac Arweinwyr Sistem GwE;

- trwy ganfyddiadau arolwg Estyn ac arolygiadau annibynnol.

Rôl ysgolion yw monitro effaith eu polisïau ar blant a phobl ifanc, rhieni a staff o blith y gwahanol grwpiau a gwmpesir, ac yn arbennig ar lefelau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc. Mae'r EHRC wedi cyhoeddi ystod o ddogfennau perthnasol sy'n rhoi cyfarwyddyd a chymorth os oes angen.

<http://www.equalityhumanrights.com/advice-and-guidance/>

D) Beth yw digwyddiad 'gwahaniaethol'?

Y ffurfiau mwyaf amlwg o ddigwyddiadau gwahaniaethol o'r fath mewn ysgolion yw bwlio corfforol neu ar lafar o ddisgyblion neu staff gan eraill,

Defnyddir sawl diffiniad o fwlio, ond mae'r mwyafrif yn ei ystyried yn weithred sy'n:

- **fwriadol niweidiol** (gan gynnwys ymddygiad ymosodol)
- digwydd **yn aml dros gyfnod o amser**, gan gydnabod gall un digwyddiad yn unig achosi trawma i'r dysgwr a'i adael yn poeni y bydd yn digwydd eto
- anodd i ddiodefwyr amddiffyn eu hunain yn ei erbyn.

Mae barn dysgwyr unigol am yr hyn a olygir wrth fwlio hefyd yn elfen allweddol i'w hystyried.

Efallai na fydd mynegiadau agored o ragfarn neu anoddefgarwch bob amser yn rhan o ymddygiad gwahaniaethol: gall ymddygiad o'r fath hefyd fod yn anwybyddu rhywun yn fwriadol ac yn barhaus, gwahardd rhywun rhag ymuno â gemau amser cinio, peidio â chydannu ac arferion gwahardd mwy dirgel. Roedd Adroddiad MacPherson (1999), oedd yn delio'n benodol â hiliaeth, yn nodi bod hiliaeth "*ar ei ffurf mwy dirgel... mor niweidiol ag yw yn ei ffurf agored*".

Diffiniodd Adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence, gan eto ganolbwyntio'n benodol ar faterion Hiliol, 'Ddigwyddiad Hiliol' fel: "Unrhyw ddigwyddiad, sy'n cael ei ddirnad yn hiliol gan y diodefwyr neu unrhyw unigolyn arall".

Mae'r diffiniad hwn, pan gaiff ei ddefnyddio ar gyfer un mater megis hiliaeth, neu o fewn cyd-destun ehangach gwahaniaethu, yn galluogi'r diodefwyr ac/unrhyw unigolyn arall sy'n dirnad ei fod yn wahaniaethol, i hysbysu amdano. Mae'r diffiniad eang hwn wedi ei gynllunio er mwyn sicrhau y caiff mwy o ddigwyddiadau eu hysbysu gan bod tan-hysbysu ynghylch digwyddiadau o'r fath wedi cael ei adnabod yn broblem ddifrifol wrth ddelio â gwahaniaethu.

Nod 5 o'r 7 Nod Craidd a luniwyd gan Llywodraeth Cymru yw *Cyfranogiad a Chydraddoldeb* "Mae Nod 5 yn ceisio sicrhau bod gan bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru rhywun i wrando arnynt, eu bod yn cael eu trin gyda pharch a bod eraill yn cydnabod eu hunaniaeth ddiwylliannol a hiliol."

Cofnodi Digwyddiadau

Mae cofnodi'r digwyddiadau hyn mewn ysgolion yn eithriadol o bwysig er mwyn delio ag ymddygiad negyddol yn gynnar.

Mae gan ysgolion ddyletswyddau penodol i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- sicrhau bod disgyblion mewn Ysgol yn teimlo'n ddiogel;

- hyrwyddo cyfle cyfartal;
- hybu cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau.

Dylai cynlluniau cydraddoldeb strategol ysgolion gynnwys canllawiau ar gyfer delio â gwahaniaethu a dylai bod gan ysgolion weithdrefn mewn lle ar gyfer cofnodi a logio unrhyw ddigwyddiadau o'r fath.

O dan weithdrefn gofnodi'r Cyngor, dylai ysgolion gofnodi a logio digwyddiadau o fwlio. Dylai ysgolion gofnodi pob digwyddiad ar y proforma a ddarperir gan Adran Addysg, Gwasanaeth Disgyblion a Chynhwysiad Cyngor Gwynedd. ***Rhaid*** i ysgolion gwblhau'r proforma hon a'i dychwelyd at **Bethan Eleri Roberts**. **Mae angen hefyd dychwelyd y proforma hyd yn oed os na chaed digwyddiad. Bydd y ffurflen yn rhoi crynodeb o'r holl ddigwyddiadau a gofnodwyd yn ystod y tymor blaenorol.**

Bydd yr Adran Addysg Gwasanaeth Disgyblion a Chynhwysiad yn casglu a monitro'r ffurflenni hysbysu ynghylch digwyddiad. Caiff yr holl adroddiadau eu trin yn gyfrinachol, gan gadw mewn cof bod angen cynnwys asiantaethau mewn achosion penodol ble efallai bydd angen ymyrryd (e.e. yr Heddlu, partneriaid o'r sector gwirfoddol ayb).

Caiff ei argymhell fel arfer dda bod adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Corff llywodraethol yn ystod tymor yr hydref. Dylai'r adroddiad gynnwys gwybodaeth ynghylch unrhyw ddigwyddiadau a all fod wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol. Byddai adroddiad o'r fath yn cynnwys manylion ynghylch unrhyw gam (au) a gymerwyd a byddai'n dangos ymrwymiad yr ysgol i greu amgylchfyd dysgu cynhwysol ac heb fod yn wahaniaethol. Wrth gwrs, ni fyddai enwau plant nac unrhyw wybodaeth fyddai yn eu hadnabod, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Mae canllawiau sy'n ymwneud â rheoli digwyddiadau gwahaniaethol wedi eu hatodi fel Atodiad 1.

Atodiad 1

Canllawiau ar gyfer Delio â Digwyddiadau Gwahaniaethol

Pwrpas y ddogfen hon yw helpu ysgolion i ddelio â bwlio, aflonyddu neu erlid gwahaniaethol, mae'n rhaid delio â hwy gan gallant gael effeithiau niweidiol:

- ar ansawdd bywyd dioddefwyr a'r rhai sy'n eu hadnabod;
- ar ansawdd yr addysg a gynigir mewn ysgolion.

Un ffactor o ran codi cyrhaeddiad plant a phobl ifanc y canfyddir eu bod yn hannu o unrhyw un o'r grwpiau lleiafrifol a gwmpesir gan ddeddfwriaeth 2010, yw pa mor agored mae ysgol yn delio â chwynion o'r fath. Y gobaith felly, yw bydd y ddogfen hon yn cyfrannu tuag at ddatblygiad parhaus yr ethos a'r diwylliant cynhwysol sy'n sicrhau profiad addysgol o ansawdd i bawb.

Dylai delio â'r digwyddiadau hyn fod yn rhan o ymateb mwy eang gan y sefydliad cyfan i unrhyw fath o wahaniaethu. Mae'n holl bwysig bod ymateb priodol i'r digwyddiadau hyn, ond nid ydyw ymateb o'r fath ynddo'i hun, yn ddigonol i ddelio â gwahaniaethu. Mae'n gyfrifoldeb ar ysgolion i addysgu plant i barchu eu hunain a pharchu eraill, herio gwahaniaethu a stereoteipio a deall a rhoi gwerth ar amrywiaeth. Y ffordd orau o gyflawni hynny yw trwy ddatblygu dulliau gwrth-wahaniaethu yn y cwricwlwm a gaiff ei addysgu a thrwy ethos ehangach yr ysgol.

Mae'r canllawiau hyn felly yn fan cychwyn ble caiff ysgolion eu hannog i ddatblygu eu cynlluniau cydraddoldeb strategol a llunio'r cysylltiadau angenrheidiol gyda'u polisïau gwrth-fwlio.

Canllaw ar gyfer Ysgolion

Wrth ddelio â gwahaniaethu mewn unrhyw un o'i ffurfiau, mae ysgolion angen côd ymarfer sydd wedi ei ddiffinio'n eglur, sy'n hysbys i blant, rhieni a gofalwyr, staff a llywodraethwyr. Dylai hynny gynnwys esboniadau eglur o pam bod ymddygiad penodol yn annerbyniol a sut y delir ag ymddygiad o'r fath.

Dylai'r côd ymarfer gael ei osod o fewn dull ysgol gyfan o ymwneud â chydaddoldeb ac amrywiaeth a dylai pob ysgol ei ddatblyguat ei bwrpas ei hun.

Mae'n bwysig delio â phob digwyddiad gwahaniaethol mewn ysgolion gan y gallant gael effaith niweidiol ar ansawdd yr addysg a sicrhau nad yw ymddygiad ac agweddau o'r fath yn parhau pan fo'r pobl ifanc yn oedolion.

Bydd dull ysgol gyfan o ran ymwneud â chyfle cyfartal yn cynnwys:

- amcanion, agweddau a gwerthoedd yr ysgol;
- yr ethos dysgu;
- adnoddau a deunyddiau;
- iaith;
- bwlio ac aflonyddu;
- staffio a datblygiad staff;
- partneriaeth â rhieni.
- y cwricwlwm a addysgir a threfniadaeth Dysgu;
- darpariaeth all-gwricwlaidd;
- y ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc o amrywiaeth o gefndiroedd. e.e. sipsiwn a theithwyr, ffoaduriaid/ymofynnwyr noddfa, lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, plant sydd mewn Gofal, plant â rhieni o'r un rhyw a'r phlant nad yw Saesneg yn iaith gyntaf iddynt;

Dylid amlinellu'r dull ysgol gyfan hwn mewn datganiad polisi, sy'n berthnasol i gymuned yr ysgol gyfan, staff, plant, rhieni, gofalwyr a llywodraethwyr.

Mae angen adnabod pob digwyddiad gwahaniaethol a delio â hwy mewn ysgolion ac ni ddylid anwybyddu unrhyw ddigwyddiad o'r fath. Gall ymateb cadarn ond cefnogol ar y cychwyn i ddigwyddiad atal pethau rhag gwaethygu.

Gweithred neu ymddygiad a all fod yn ddigwyddiad gwahaniaethol

- Annog eraill i ymddwyn mewn modd gwahaniaethol
- Ymosodiad corfforol yn erbyn unigolyn neu grŵp
- Galw enwau sarhaus, gwawdio, jocs a iaith
- Graffiti
- Ymddygiad cythruddol megis gwisgo bathodynau neu arwyddluniau sarhaus
- Dod a deunyddiau gwahaniaethol megis taflen, comics, cylchgronau neu feddalwedd cyfrifiadurol i'r ysgol

- Defnyddio unrhyw systemau electronig i fygwth, aflonyddu ar a gwahaniaethu yn erbyn
- Difrio a bygythiadau ar lafar
- Sylwadau gwahaniaethol wrth drafod mewn gwersi
- Ceisio recriwtio disgyblion a myfyrwyr eraill i sefydliadau a grwpiau gwahaniaethol
- Gwawdio unigolyn am wahaniaethau ymddangosiadol
- Gwrthod cydweithredu â disgyblion eraill oherwydd eu gwahaniaeth ymddangosiadol
- Gwahaniaethu trwy gydgyssylltiad
- Aflonyddu Rhywiol
- Gwahaniaethu mewn cysylltiad â recriwtio, cyflogaeth ac adolygu perfformiad staff.
- Gwahaniaethu mewn perthynas â recriwtio Llywodraethwyr

Ymateb i Ddigwyddiadau

Bydd sut delir â digwyddiad yn ddibynol ar ddifrifoldeb y sefyllfa, oedran a dealltwriaeth y plant sydd a wnelo â hyn, ac o fewn ei gyd-destun. Rhaid cydnabod pob digwyddiad, ymchwilio iddo a siarad amdano, beth bynnag fo oedran y plant.

Efallai na fydd plant ifanc iawn yn deall y termau a ddefnyddiant ond efallai byddant yn adnabod eu grym i bryfocio neu beri gofid. Mae'n bwysig egluro i bobl ifanc pam bod yr iaith a ddefnyddir yn niweidiol a pham na ddylid defnyddio iaith o'r fath. Dylid delio â rhieni plant ifanc mewn modd sensitif a'u hannog i gynorthwyo gyda'r weithdrefn.

Pan hysbysir ynghylch digwyddiad neu canfyddir iddo ddigwydd, dylai ysgolion ddilyn eu gweithdrefnau mewnol. Dylai bod gan ysgolion weithdrefn mewn lle ar gyfer cofnodi a logio'r digwyddiadau hynny. Ni ddylai staff chwarae i lawr neu ddiystyrru teimladau dioddefwyr trwy ddatgan nad oedd y sawl a gyflawnodd y drosedd 'yn gwneud hynny'n fwriadol', rhaid i'r cyflawnwr gymryd cyfrifoldeb am ganlyniadau ei ymddygiad.

Beth i'w wneud

Dylai'r broses o hysbysu ynghylch, cydnabod a delio â digwyddiad gwahaniaethol gynnwys y camau canlynol:

Digwyddiad honedig

1. Ymateb Cychwynnol

2. Ymchwilio

3. Cofnodi

4. Cymryd Camau

(a) Menwol yn unig neu

(b) Hysbysu'r Adran Addysg Cyngor Gwynedd os yn ddifrifol

5. Camau dilyn i fyny

6. Adroddiad tymhorol i Gyngor Gwynedd

Ymateb cychwynnol

Mae'n gyfrifoldeb ar yr holl staff ymateb i'r digwyddiadau hyn. Mae'r rhestr a ganlyn yn cynnwys manylion ynghylch ymatebion posibl i ddigwyddiad.

- Cydnabod y digwyddiad.
- Trin y digwyddiad yn ddifrifol.
- Ymateb yn syth.
- Atgyfnerthu polisi'r ysgol.
- Cefnogi'r dioddefwr a lleisio dealltwriaeth a phryder am yr hyn a ddigwyddodd iddynt.
- Egluro i'r plentyn/plant sy'n gyfrifol ac i unrhyw rai sy'n gwylio beth sy'n annerbyniol ynghylch y digwyddiad.
- Hysbysu'r Pennaeth ac/neu unigolyn a enwir ynghylch y digwyddiad.

Gyda'r sawl a gyflawnodd y drosedd

Cysylltu â rhieni'r sawl a gyflawnodd y drosedd i egluro'r hyn a ddigwyddodd, beth rydych yn ei wneud yn ei gylch a sut mae'n cysylltu â pholisi eich ysgol.

- Ystyriwch beth yw'r cam mwyaf addas i'w gymryd. Yn achos troseddau cyntaf neu y cânt eu cyflawni gan blant ifanc iawn, annog y cyflawnwr i gydnabod ac ymddiheuro am yr hyn a ddigwyddodd yw'r dull mwyaf effeithiol yn aml er mwyn cymodi perthynas ac atal hyn rhag digwydd eto. Bydd angen cosbi ymhellach os caiff troseddau eu hail-adrodd neu y caiff gweithredoedd mwy difrifol eu cyflawni, yn unol â pholisi'r ysgol ar fwlio.
- Unioni unrhyw gamgysyniadau a all ddod i'r amlwg.

Cofnodi ac adrodd

- Dylid cofnodi pob digwyddiad a gofnodir gan ddefnyddio'r ffurflen gofnodi enghreifftiol.
- Dylid cofnodi nodyn o'r hyn a ddigwyddodd, canlyniad yr ymchwiliad a pha gamau a gymerwyd. Mae'r cofnod hwn yn galluogi'r ysgol i fonitro digwyddiadau ac mae'n dyngedfennol os bydd angen mynd ar drywydd digwyddiad yn nes ymlaen.
- **Rhaid cwblhau'r ffurflen adroddiad crynodol a'i anfon at yr Awdurdod Addysg ar ddiwedd pob tymor.**
- Cysylltu â'r Awdurdod Addysg yn syth os oes arnoch angen cyngor neu gefnogaeth bellach.
- Rhaid i ysgolion hysbysu'r Awdurdod Addysg yn syth ynghylch unrhyw bryderon yn dilyn digwyddiadau difrifol fel gellir cyd-gysylltu cyngor a chefnogaeth yn gyflym er mwyn atal rhag digwydd eto. • Yn ddiabynnol ar ddifrifoldeb y mater mewn ymosodiad, dylid ystyried cysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i gynnal ymchwiliad ar y cyd gyda'r Gwasnaethau Cymdeithasol.

Fel arfer dda, awgrymir cyflwyno adroddiad yn flynyddol yn ystod tymor yr hydref i'r corff llywodraethol.

Dylai'r adroddiad gynnwys gwybodaeth ynghylch unrhyw ddigwyddiadau a allai fod wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol. Byddai adroddiad o'r fath yn cynnwys manylion ynghylch unrhyw gam(au) a gymerwyd a byddai'n dangos ymrwymiad yr ysgol i greu amgylchfyd dysgu cynhwysol. Yn naturiol, ni fyddai enwau plant nac unrhyw wybodaeth arall sy'n adnabod plant, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad.

Camau pellach

Sicrhau bod yr ymateb i ddigwyddiadau unigol wedi ei fewnblannu mewn dull ysgol gyfan.

- Cymryd camau priodol trwy wasanaeth boreol, amser cylch, cyfnodau tiwtor a'r cwricwlwm.
- Monitro digwyddiadau i adnabod tueddiadau a materion sy'n peri pryder, gan ddefnyddio'r Canllaw ar arfarnu ystadegau digwyddiadau.
- Cyflwyno arfarniadau i staff a llywodraethwyr er mwyn sicrhau trafodaeth reolaidd a datblygu arfer dda.
- Defnyddio cyngor yr ysgol i gynnwys plant a parhau i'w hannog hwy a'u rhieni i hysbysu ynghylch digwyddiadau.
- Gwneud defnydd o'r system fugeiliol yn yr ysgolion, y system cynnal ymddygiad a'r cynllun Cwnsela er mwyn roi cyfarwyddyd ar gyfer athrawon/ysgolion ar gefnogi dioddefwyr gwahaniaethu.

Mae honiad o ymddygiad gwahaniaethol gan unrhyw athro/athrawes neu staff ategol yn fater disgyblu difrifol a chaiff ei ystyried gan y Corff Llywodraethol.

Digwyddiadau Tu allan i'r Ysgol

Ar adegau y tynnir sylw'r Pennaeth at ddigwyddiadau a ddigwydd tu allan i'r ysgol, neu maent a wnelo â cyflawnwyr o'r tu allan.

Mae gan ysgolion hawl i ddisgyblu disgyblion am eu hymddygiad tu allan i dir yr ysgol ble mae'r disgyblion dan ofal staff neu mae'n rhesymol i'r ysgol reoli ymddygiad y disgyblion. Mae'r rheolaeth cyfraith hon wedi ei hegluro a'i gwneud yn statudol gan adran 90(2)(a) o'r Ddeddf Addysg ac Arolwg 2006.

Tyndra o fewn yr Ysgol

Mae'n bwysig bod athrawon yn dangos sensitifrwydd tuag at arwyddion o erledigaeth posibl o unigolion neu grwpiau o blant, hyd yn oed pan nad oes digwyddiad canfyddadwy.

Yn yr un modd, dylid monitro pob ymddygiad y gellid ei ystyried fel bod o bosibl yn adlewyrchu tyndra o fewn yr ysgol gyfan e.e. ble mae grwpiau bychain o blant yn ffurfio grwpiau ynysig o fewn y cae chwarae neu'r ystafell ddosbarth; dylid hysbysu'r sefydliadau partner perthnasol ynghylch unrhyw bryderon difrifol.

Ysgol Waunfawr

Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2012-2016)

Datganiad polisi cyffredinol

Mae'r ysgol hon yn gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion.

Hyrwyddwn gysylltiadau da a chyd-barch o fewn a rhwng ein disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni, rhai sy'n gofalu am a gwarcheidwaid ein disgyblion, beth bynnag fo eu tarddiad ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiradaeth rhywiol, anabled, newid o ran rhyw, crefydd neu anffyddiaeth, iaith, cenedl, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu am unrhyw reswm arall nas gellir dangos bod cyfiawnhad drosto.

Mae'r ysgol yn cydnabod y ceir cymdeithasau amrywiol yng Nghymru a'r DU, yn cynnwys unigolion o lawer o wahanol gefndiroedd. Mae'n bwysig bod pob plentyn a'r holl bobl ifanc wedi eu paratoi'n ddigonol i fyw mewn cymdeithas mor amlddiwylliannol ac amrywiol.

Ein nod yn ein hysgol yw delio â gwahaniaethu a hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da ar draws pob agwedd o fywyd ysgol. Gwnawn hynny trwy:

- greu ethos ble mae pob plentyn a pherson ifanc unigol yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn ddiogel;
- creu ymdeimlad o hunan-barch a hyder yn ein plant a'n pobl ifanc, fel y gallant ddefnyddio'r rhinweddau hyn i ddylanwadu ar eu perthynas ag eraill;
- bod a disgwyladau cyson uchel o blant a phobl ifanc yn eu hymddygiad ac yn eu dysg;
- lleihau rhwystrau i ddysgu, fel y gall pob plentyn ac unigolyn ifanc dderbyn yr un cyfle i gyflawni;
- sicrhau ystyriaeth addas a cytbwys i anghenion dysgu pob plentyn ac unigolyn ifanc, trwy ein cynlluniau gwaith a'n cynlluniau gwers;
- adnabod gweithdrefnau eglur ar gyfer delio'n gyflym â digwyddiadau o ymddygiad gwahaniaethol;
- creu hyder ymhlith plant a phobl ifanc a staff i herio ymddygiad rhagfarnllyd ac ymosodol;
- herio stereoteipiau a hyrwyddo delweddau positif;

Cyfrifoldebau

Rôl y Bwrdd Llywodraethol

- Mae'r bwrdd llywodraethol wedi amlinellu ei ymrwymiad i gydraddoldeb trwy roi sêl bendith ar y cynllun hwn a'i fabwysiadu a bydd yn dal i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol yn hollol gynhwysol i ddisgyblion, ac yn ymateb i anghenion ac amgylchiadau unigolion yn unigol.
- Ceisia'r bwrdd llywodraethol sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unigolion ar unrhyw sail, wrth ymgeisio am swyddi yn ein hysgol.
- Cymer aelodau'r bwrdd llywodraethol bob cam rhesymol i sicrhau y rhydd amgylchedd yr ysgol fynediad i bobl anabl, a cheisiant hefyd sicrhau bod cyfathrebiadau'r ysgol mor gynhwysol a bo modd i rieni, rhai sy'n gofalu a disgyblion fel'i gilydd.
- Mae'r bwrdd llywodraethol yn croesawu pob cais i ymuno â'r ysgol, beth bynnag fo cefndir unigol neu gefndir teuluol plentyn.

- Bydd y bwrdd llywodraethol yn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn unrhyw blentyn tra maent yn yr ysgol.

Rôl y Pennaeth

- Y pennaeth sy'n gyfrifol am weithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol a chaiff ef/hi ei chefnogi gan y bwrdd llywodraethol yn hynny o beth.
- Y pennaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o Gynllun Cydraddoldeb Strategol yr ysgol, a bod athrawon yn cymhwyso'r canllawiau hynny mewn pob sefyllfa.
- Mae'r pennaeth yn sicrhau y rhydd yr holl baneli penodi ystyriaeth ddyledus i'r cynllun hwn, fel na wahaniaethir yn erbyn unrhyw un pan ddaw yn fater o gyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Mae'r pennaeth yn hyrwyddo'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddatblygu'r cwricwlwm, ac yn hybu parch at eraill a chyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn pob agwedd o fywyd yr ysgol.
- Bydd y pennaeth yn delio o ddifrif â phob digwyddiad o driniaeth annheg ac unrhyw achos o fwlio yn sgîl gwahaniaethu.

Rôl y staff cyfan (dysgu ac ategol)

- Bydd yr holl staff yn sicrhau y caiff pob disgybl ei drin yn deg, yn gyfartal a gyda pharch, ac yn dilyn Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol.
- Bydd yr holl staff yn ceisio darparu deunydd a rydd ddelweddau positif ac sy'n herio delweddau ystrydebol.
- Bydd yr holl staff yn herio unrhyw ddigwyddiadau ble ceir rhagfarn, boed yn hiliaeth, homoffobia, cysylltiedig ag anabledd neu fath arall o ragfarn, a cofnodi unrhyw ddigwyddiad, gan dynnu sylw'r pennaeth atynt.
- Mae'r athrawon yn cefnogi gwaith y staff ategol neu gefnogol ac yn eu hannog i ymyrryd yn bositif yn erbyn unrhyw ddigwyddiadau gwahaniaethol.

Ymwelwyr a contractwyr sy'n gweithio ar y safle

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod yr holl ymwelwyr neu gontractwyr sy'n gweithio ar y safle yn ymwybodol o safiad yr ysgol ar gydraddoldeb a digwyddiadau gwahaniaethol.

Ymgynghori

Caiff y polisi hwn ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r canlynol:

- Staff.
- Plant a phobl ifanc.
- Rhieni.
- Aelodau'r Bwrdd Llywodraethol.
- Grwpiau/Cynrychiolwyr o'r Gymuned.
- Cyngor Gwynedd
- Sefydliadau partner o'r sector wirfoddol.

Cyfathrebu

Caiff y polisi llawn ei:

- arddangos yn y cyntedd;
- ei roi i bob contractwr neu ddarparwyr gwasanaeth nad ydynt yn cyflenwi'r AALL, y cânt eu gwneud yn ymwybodol o'r angen i ddilyn y polisi ac y gofynnir iddynt am eu polisi eu hunain;

- ei roi i bob rhiant/gofalwr/gwarcheidwad ac ar gael os gofynnir ar gyfer ymwelwyr ac aelodau'r gymuned ehangach.

Caiff Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol hefyd ei anfon at:

- bob ymgeisydd am swydd;
- caiff ei gyhoeddi ym mhrosbectws yr ysgol;
- caiff ei gyhoeddi ar wefan yr ysgol
- ei arddangos o amgylch tir yr adeilad;
- ar gael os gofynnir i unrhyw un sy'n dymuno cael copi.

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn unol a'r gofyn.

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob pedair mlynedd neu'n dilyn unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth.

Arwyddwyd: _____ Pennaeth

Arwyddwyd: _____ Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol

Adrannau sy'n gysylltiedig ag agweddau penodol o swyddogaeth yr ysgol

1. Ethos Cymuned Gyfan

1.1 Dathlu a darparu ar gyfer amrywiaeth

Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i sicrhau y delir ag anghenion pob grŵp yn yr ysgol trwy ddathlu amrywiaeth, megis darparu ar gyfer gofynion ymborth a gofynion gwisg gwahanol grwpiau crefyddol a caniatáu plant a phobl ifanc i arsylwi gwahanol ddathliadau a gwyliau crefyddol.

1.2 Paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amryfal

Rydym yn annog pob plentyn a phawb ifanc i ddeall, parchu a gwerthfawrogi unigolion a hunaniaeth, diwylliannau a chredoau pobl maent yn anghyfarwydd â hwy er mwyn eu paratoi ar gyfer bywyd mewn cymdeithas amryfal.

2. Cyrhaeddiad, datblygiad ac asesiad personol plant a phobl ifanc

2.1 Cyrhaeddiad a chynnydd

Ein nod yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cyrraedd ei llawn botensial. Rydym yn monitro cynnydd plant a phobl ifanc unigol am arwyddion o dan-gyrhaeddiad. Delir â'r rhain trwy gefnogaeth sydd wedi ei gynllunio a'i dargedu. Ble bo angen, ceisir cyngor gan sefydliadau cefnogol megis yr Awdurdod Lleol a sefydliadau partner o'r sector gwirfoddol.

2.2 Cefnogaeth fugeiliol

Mae'n cefnogaeth fugeiliol yn ystyried gwahaniaethau crefyddol a gwahaniaethau ethnig a phrofiadau plant sy'n sipsi deithwyr, ffoaduriaid ac yn ymfynwyr noddfa.

2.3 Cefnogaeth i blant a phobl ifanc SIY

Darparwn gefnogaeth briodol ar gyfer plant a phobl ifanc lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, a'u hannog i ddefnyddio a datblygu eu ieithoedd cartref, ble bo modd.

2.4 Gyrfaoedd a profiadau gwaith yn y dyfodol

Rydym yn annog pob plentyn a pherson ifanc i ystyried yr ystod llawn o brofiadau gwaith sydd ar gael yn y dyfodol a dewisiadau addysg bellach er mwyn sicrhau na chaiff unigolion neu grwpiau penodol eu stereoteipio.

2.5 Asesiad

Cymerwn ofal i sicrhau na fydd plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, rhai lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac unrhyw blant sy'n ffoaduriaid ac yn ymofynnwyr noddfa yn cael eu rhoi dan anfantais trwy ragfarn diwylliannol a ieithyddol neu ddiffyg cefnogaeth mewn asesiadau. Ceisir cyngor pan fo'n berthnasol.

2.6 Anghenion Addysgol Arbennig

Gwneir asesiadau manwl-gywir o anghenion addysgol arbennig ar gyfer plant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, rheini lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, ac ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid ac sy'n ymofynnwyr noddfa. Rhoddir cefnogaeth briodol i bob plentyn a pherson ifanc ag anghenion addysgol arbennig.

3. Cwricwlwm, addysgu ac adnoddau

3.1 Hybu amrywiaeth diwylliannol trwy gyfrwng y cwricwlwm

Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth yn y cwricwlwm trwy addysgu cynnwys positif, amrywiol, adolygu'n systematig ddogfennaeth er mwyn sicrhau cynnwys priodol a trwy feithrin parch tuag at bawb beth bynnag fo eu hamgylchiadau unigol neu deuluol.

3.2 Mynediad at y Cwricwlwm

Gwnawn bob ymdrech i sicrhau caiff pob plentyn a phobl ifanc fynediad i'r cwricwlwm trwy gymryd eu cefndiroedd unigol a'u anghenion ieithyddol i ystyriaeth, a thrwy addasu a gwahaniaethu gwaith yn briodol.

3.3 Adnoddau

Caiff delweddau positif o ystod o bobl a diwylliannau eu portreadu trwy ein hadnoddau a'n harddangosfeydd. Cânt eu hadolygu a'u huwchraddio'n systematig er mwyn sicrhau bod pob gofyn unigol yn cael ei gwrdd a defnyddiwn amrywiaeth o adnoddau i herio stereoteipiau a gwahaniaethu yn drawsgwricwlaidd.

3.4 Addysgu a Dysgu

Cymerwn gamau positif i sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan a themlo y caiff eu cyfraniadau eu gwerthfawrogi. Caiff plant a phobl ifanc o bob cefndir eu hannog i gydweithio gyda chydweithrediad a dealltwriaeth. Caiff rhagfarn a stereoteipiau eu herio gan ein haddysgu ac rydym yn meithrin ymwybyddiaeth feirniadol plant a phobl ifanc o ragfarn, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder.

3.5 Ymglymiad pobl o gefndiroedd amryfal

Ceisiwn ddefnyddio batrymau ymddwyn a chyflwynwyr o blith ystod o wahanol grwpiau yn yr ysgol i gyd-rannu ystod eang o sgiliau a phrofiadau.

4. Derbyn a phresenoldeb

4.1 Derbyn

Mae ein meini prawf mynediad a chyfweliadau yn seiliedig ar ganllawiau'r Awdurdod Lleol ac maent yn deg a chyfartal i bawb ac nid ydynt yn cael effaith niweidiol ar unrhyw unigolion na grwpiau.

4.2 Presenoldeb

Disgwylwn bresenoldeb da gan bob plentyn a pherson ifanc. Rydym yn cydnabod hawl plant a phobl ifanc i gymryd amser i ffwrdd ar gyfer e.e. ymlyniad crefyddol, ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc ar seibiant estynedig i ddal i fyny a gwaith a gollir.

5. Ymddygiad, disgyblaeth a gwahardd

5.1 Bwlio, gwahaniaethu ac aflonyddu

Rydym yn gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu, ac ni chaiff defnydd o'r fath iaith neu ymddygiad ei oddef a chaiff ei herio bob tro. Delir â phob digwyddiad yn unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol yr Awdurdod Lleol a'r Ysgol.

5.2 Ymddygiad a disgyblaeth

Disgwylir safonau uchel o ymddygiad gan bob plentyn a'r holl bobl ifanc. Caiff yr holl blant a'r bobl ifanc eu trin yn deg ac heb wahaniaethu yn eu herbyn pan gânt eu disgyblu am ymddygiad sy'n tarfu. Cymerir mesurau pendant a chyson wrth ddelio â digwyddiadau o natur gwahaniaethol a chynhelir ymchwiliad llawn i bob honiad o aflonyddu neu gythruddo o'r fath.

5.3 Gwahardd

Cymerwn gamau rhagweithiol i geisio atal gwahardd a chaiff unrhyw waharddiadau sy'n anochel eu monitro trwy ddefnyddio'r ystod llawn o nodweddion cydraddoldeb.

6. Partneriaeth gyda rhieni a'r gymuned

6.1 Partneriaeth gyda rhieni a'r gymuned

Rydym yn ceisio tynnu ar fedrusrwydd, sgiliau a gwybodaeth unigolion o ystod o gefndiroedd, o'r gymuned leol ac ehangach, i ddatblygu agweddau positif tuag at amrywiaeth diwylliannol a herio gwahaniaethu. Caiff rhieni o gefndiroedd amrywiol eu hannog i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Ble bo angen, defnyddir cyfieithu a dehongli i gyfathrebu ac ymgynghori gyda rhieni neu rai sy'n gofalu nad yw Saesneg yn famiaith iddynt.

6.2 Tir yr ysgol

Gall pob grŵp yn y gymuned ddefnyddio tir yr ysgol sy'n cefnogi'r un egwyddorion o gydraddoldeb ac amrywiaeth pan fo hynny'n briodol a thrwy ganiatad

6.3 Contractwyr a darparwyr gwasanaeth

Disgwylir i bob contractwr ac ymwelydd â'r ysgol gynnal ymddygiad, sy'n gyson â'r polisi hwn.

7. Recriwtio staff a datblygiad proffesiynol

7.1 Recriwtio a hyrwyddo

Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol, rydym yn sicrhau na cheir gwahaniaethu yn ein materion recriwtio, hyrwyddo a disgyblu.

7.2 Datblygiadau Proffesiynol

Gellir gwneud trefniadau â Tîm Cydraddoldeb yr Awdurdod Lleol i staff fynychu cyrsiau hyfforddi cydraddoldeb Cyngor Gwynedd. Mae'r cyrsiau hyn yn ddi-dâl i staff yr ysgol a defnyddir arbenigedd darparwyr mewnol ac allanol o'r sector gwirfoddol i ddarparu hyfforddiant ar gyfer yr holl staff a'r bwrdd rheoli ynghylch materion cydraddoldeb hîl,

homoffobia, amrywiaeth diwylliannol, anabledd ac anghenion plant a phobl ifanc mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, sipsi deithwyr, ffoaduriaid ac ymofynnwyr noddfa.

7.3 Gwahaniaethu ac aflonyddu

Delir â digwyddiadau o wahaniaethu neu aflonyddu sy'n ymwneud â staff, yn unol â gweithdrefnau disgyblaeth a chwynion yr AALL/ ysgol.

7.4 Peidio â dilyn y polisi

Os bydd aelodau'r staff neu bwrdd rheoli yn peidio â dilyn y polisi hwn, delir â hynny yn unol â gweithdrefnau disgyblaeth a chwynion yr AALL/ ysgol.

8. Cynllunio ac adolygu polisi

8.1 Cynllunio a gosod targed

Defnyddiwn bolisi a hunan-arfarniadau, fel mecanweithiau archwilio, i nodi targedau penodol ar gyfer gweithredu ar faterion o gydraddoldeb hîl. Caiff y cynllun gweithredu hwn, sy'n mynd gyda'r Polisi Cydraddoldeb Hîl, ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu'r Ysgol a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

8.2 Arfarnu, monitro ac adolygu polisiau

Caiff effaith holl bolisiau'r ganolfan ar blant a phobl ifanc o leiafrifoedd ethnig, staff, bwrdd rheoli a rheini ei asesu er mwyn sicrhau na cheir arfer gwahaniaethol, yn arbennig yr hyn all gyfrannu at dangyflawniad plant a phobl ifanc o leifarifoedd ethnig.

Caiff effaith Cynllun Cydraddoldeb Strategol yr Ysgol ar bob plentyn a phobl ifanc, staff, bwrdd rheoli a rhieni, ei fonitro am ei effeithiolrwydd, yn flynyddol, a chymer arfarniadau i ystyriaeth farn plant a phobl ifanc, staff, rhieni ac aelodau o'r gymuned leol yn cynnwys grwpiau lleiafrifol. Mae pob adolygiad polisi yn ystyried goblygiadau cydraddoldebau perthnasol.

9. Cyngor a chefnogaeth

9.1 Ymgynghorwyr Awdurdod Lleol

Bydd yr ysgol yn ceisio cyngor a chefnogaeth gan swyddogion AALL a sefydliadau sector gwirfoddol perthnasol ble bo angen, er mwyn sicrhau bod polisiau wedi eu cynllunio i gwrdd ag anghenion yr ysgol, a thargedau cydraddoldeb yr ysgol yn briodol

Atodiad 3 - Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb

Nod 1	Codi ymwybyddiaeth plant, rhieni, staff ac aelodau'r bwrdd llywodraethol o'r polisi cydraddoldeb
Canlyniad	Bydd holl rhanddeiliaid yr ysgol yn ymwybodol o fodolaeth y polisi cydraddoldeb
Priodweddau a ddiogelir/Materion Eraill sy'n ymwneud â Chydraddoleb a gwmpesir	Tarddiad Ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, newid rhyw, credoau crefyddol neu anffyddiaeth, iaith, cenedl, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion.
Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau eraill	Polisi gwrth-fwllo
Sail Tystiolaeth	Holiadur ar ddiwedd cyfnod i holi rhanddeiliaid o'u hymwybyddiaeth o'r polisi
Mesur Llwyddiant/Dangosyddion Perfformiad	<ul style="list-style-type: none"> • Plant yn ymwybodol o gynnwys polisi cydraddoldeb • cydraddoldeb yn derbyn mwy o sylw yng nghwricwlwm y ganolfan • Gostyngiad mewn lefelau o anghydfod o ran cydraddoldeb pob unigolyn
Amserlen	Yn barhaus
Rhanddeiliaid	Disgyblion, staff yr ysgol, rhieni, bwrdd rheoli, Addysg Cyngor Gwynedd, aelodau etholedig Cyngor Gwynedd, Fforwm Cydlynedd Cymunedol CCB, Heddlu Gogledd Cymru Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc, Tim Troseddwy'r Ifanc Gwyneddac ati

Nod 2	Gostwng nifer digwyddiadau bwlio gwahaniaethol yn yr ysgol o X% dros 4 blynedd y cynllun hwn.
Canlyniad	Gall disgyblion a staff fynd ynghylch eu bywydau dydd i ddydd yn yr ysgol, boed yn yr ystafell ddosbarth, heb ddiodeff iaith gwahaniaethol, sarhad a bwlio.
Priodweddau a ddiogelir/Materion Eraill sy'n ymwneud â Chydraddoleb a gwmpesir	Tarddiad Ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, newid rhyw, credoau crefyddol neu anffyddiaeth, iaith, cenedl, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion.
Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau eraill	Polisi gwrth-fwlio
Sail Tystiolaeth	Defnyddio data cyfredol ar fwlio fel gwaelodlin.
Mesur Llwyddiant/Dangosyddion Perfformiad	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd cychwynnol mewn hysbysu am ddigwyddiadau • Cynnydd mewn lefelau bodddhad (gan ddisgyblion a rhieni) ynghylch sut deliwyd â materion • Gostyngiad mewn lefelau o fwlio mewn ysgolion yr hysbysir yn ei gylch
Amserlen	Adrodd yn dymhorol gan ddefnyddio ffurflen adrodd Cyngor Gwynedd – adroddiad blynyddol i ddangos ffigurau, tueddiadau a gweithredoedd.
Rhanddeiliaid	Disgyblion, staff yr ysgol, bwrdd rheoli, Addysg Cyngor Gwynedd, aelodau etholedig Cyngor Gwynedd, Fforwm Cydlynedd Cymunedol CCB, Heddlu Gogledd Cymru Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc, Tim Troseddwr Ifanc Gwyneddac ati

Nod 3	Rhoi cyfleoedd cyfartal i blant o bob gallu i brofi llwyddiant gan gynnwys plant sy'n tangyflawni ym maes rhifedd
Canlyniad	Codi safonau cyrhaeddiad pob unigolyn mewn sgiliau angenrheidiol addysgol a chymdeithasol a dangos cynnydd gan unigolion
Priodweddau a ddiogelir/Materion Eraill sy'n ymwneud â Chydraddoleb a gwmpesir	Tarddiad Ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, newid rhyw, credoau crefyddol neu anffyddiaeth, iaith, cenedl, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion.
Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau eraill	Cynllun Gweithredu'r Ysgol 2013-14

Sail Tystiolaeth	Data tracio cynnydd rheolaeth addysgol y disgyblion
Mesur Llwyddiant/Dangosyddion Perfformiad	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau rhifedd disgyblion yn dangos cynnydd • Cynnydd i'w weld mewn tasgau ysgrifenedig • Cynnydd yn nealltwriaeth pob disgybl yn seiliedig ar ei allu unigol.
Amserlen	yn ystod 2013-14
Rhanddeiliaid	Disgyblion, staff yr ysgol, rhieni, bwrdd llywodraethol, Addysg Cyngor Gwynedd

Nod 4	Rhoi cyfleoedd cyfartal i blant o bob gallu i brofi llwyddiant gan gynnwys plant sy'n tangyflawni ym maes llythrennedd
Canlyniad	Codi safonau cyrhaeddiad pob unigolyn mewn sgiliau angenrheidiol addysgol a chymdeithasol a dangos cynnydd gan unigolion
Priodweddau a ddiogelir/Materion Eraill sy'n ymwneud â Chydraddoleb a gwmpesir	Tarddiad Ethnig, rhyw, oedran, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, newid rhyw, credoau crefyddol neu anffyddiaeth, iaith, cenedl, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynnyddion.
Cysylltiadau â Strategaethau a Chynlluniau eraill	Cynllun Gweithredu'r Ysgol 2013-14
Sail Tystiolaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Data tracio cynnydd rheolaeth addysgol y disgyblion • Hunan werthuso cynnydd disgyblion ar sail holiadur • Data profion darllen tymhorol yn dangos bod safonau yn codi
Mesur Llwyddiant/Dangosyddion Perfformiad	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau darllen disgyblion yn dangos cynnydd • Cynnydd i'w weld mewn tasgau darllen • Cynnydd yn nealltwriaeth pob disgybl yn seiliedig ar ei allu unigol.
Amserlen	yn ystod 2013-14
Rhanddeiliaid	Disgyblion, staff yr ysgol, rhieni, bwrdd llywodraethol, Addysg Cyngor Gwynedd

Atodiad 4

Rhestr Cynllunio Cydraddoldeb Strategol ar gyfer staff ysgol a llywodraethwyr ysgol (wedi ei haddasu a'i diweddarau o ddogfen Cyngor Caerffili)

A yw eich Corff Llywodraethol wedi rhoi sêl bendith ar a mabwysiadu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Ebrill 2012?

A yw barn, mewnbwn ac ymglymiad staff, rhieni a disgyblion wedi llywio eich Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

A gesglir gwybodaeth ynghylch nodweddion unigol mewn perthynas â disgyblion a staff wrth ddadansoddi llwyddiannau disgyblion, presenoldeb, gwaharddiadau, hyfforddiant staff ayb?

A ddefnyddir y wybodaeth hon i oleuo polisiau, cynlluniau a strategaethau, gwersi, cefnogaeth ychwanegol, hyfforddiant a gweithgareddau a rydd yr ysgol?

A yw'r cwricwlwm yn cynnwys cyfleoedd i ddeall materion sy'n gysylltiedig â'r llawer agwedd sy'n ymwneud â chydaddoldeb?

A gaiff yr holl ddisgyblion eu hannog i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol? A yw disgyblion sy'n gwneud cyfraniad positif yn adlewyrchu amrywiaeth yr ysgol e.e. trwy wasanaethau boreol dosbarth/cyngor ysgol?

A roed gweithdrefnau mewn lle i sicrhau bod y corff llywodraethol a'r awdurdod lleol yn cael eu hysbysu bob tymor o unrhyw fwlio sy'n seiliedig ar faterion cydraddoldeb? A ddefnyddir y data ar fwlio ac aflonyddu ar ddisgyblion i wneud gwahaniaeth i brofiad disgyblion a staff eraill?

A yw arddangosfeydd gweledol yn adlewyrchu amrywiaeth cymuned eich ysgol? Sut caiff patrymau ymddwyn lleiafrifoedd ethnig, anabl a benyw a gwryw eu hyrwyddo'n bositif mewn gwersi, arddangosfeydd a trafodaethau megis amser cylch a gwasanaethau dosbarth?

A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau megis Mis Hanes Pobl Groenddu, Mis Hanes LGBT, Wythnos Ymwybyddiaeth y Byddar, ac Wythnos Un Byd i godi ymwybyddiaeth o faterion amrywiol yn ymwneud â chydaddoldeb?

A yw amgylchedd yr ysgol mor hygyrch a bo modd i ddisgyblion, staff ac ymwelwyr â'r ysgol? A gynhelir nosweithiau agored a digwyddiadau eraill a fynychir gan rieni, gofawyr a'r gymuned mewn rhan hygyrch o'r ysgol, ac a gymerir materion megis rhwystrau iaith (yn cynnwys BSL) i ystyriaeth?

A ystyrir anghenion hygyrchedd ac anghenion diwyg rhieni, disgyblion a staff wrth gyhoeddi ac anfon gwybodaeth?

A all unrhyw ymgeisydd ymgymryd â gweithdrefnau ar gyfer ethol rhieni llywodraethwyr a phleidleisiau gan bob grŵp yn y gymuned?